
ADRODDIADAU ARHOLWYR

LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Ionawr 2023

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2 Tystysgrif

Ionawr 2023

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Sylwadau Cyffredinol

Mae niferoedd yr ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer yr uned hon wedi cynyddu, sy'n galonogol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r geiriau gorchymyn ac roedd y llawysgrifen yn ddarllenadwy. Roedd yr ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y rhan fwyaf o gwestiynau, ond roedd rhai o'r ymatebion yn eithaf cryno ac roedd diffyg manylion ynddyn nhw, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau tariff uwch. Roedd tystiolaeth o ymgeiswyr yn camddarllen cwestiynau oedd yn cyfyngu eu mynediad at farciau.

Er mwyn gallu cyrraedd marciau'r bandiau uwch ar gyfer y cwestiynau ymateb estynedig, mae angen i ymgeiswyr gymhwyso eu hymateb at y senario – yn rhy aml, gwelwyd tystiolaeth o ymatebion generig â diffyg cymhwyso a diffyg terminoleg pwnc-benodol. Nid oedd cwestiynau a oedd yn gofyn am ystyriaeth o dwf, iechyd a llesiant bob amser yn mynd i'r afael â phob agwedd ac roedd hynny'n cyfyngu ar y marciau y gellid eu dyfarnu.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu adnabod y camau bywyd yn gywir, fel yr amlinellir yn y fanyleb, ac roedd hynny'n dda i'w weld.

Cw.2 Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd tystiolaeth o gamddarllen hefyd. I gael marciau llawn, roedd gofyn i ymgeiswyr ymateb drwy nodi ffyrdd y gwnaeth pob ffactor ddylanwadu ar yr agwedd ar ddatblygiad a enwir yn y cwestiwn.

Cw.3 (a) Amlinellodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr enghreifftiau o ddewisiadau o ran ffyrdd o fyw yn gywir, gydag ymatebion poblogaidd yn canolbwyntio ar ddeiet iach ac osgoi camddefnyddio sylweddau. Rhoddwyd marciau am ddewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw yn unig.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr enwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Collwyd marciau drwy enwi'r ymarferydd yn hytrach na'r gwasanaeth, fel y gofynnwyd.

Cw.4 (a) Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dda gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi enghreifftiau o ffyrdd y gallai gweithiwr gofal gynorthwyo mewn oedolaeth ddiweddarach. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys cynorthwyo â gofal personol a bwydo.

(b) Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dyfarnwyd y band marcio uchaf i ymgeiswyr a esboniodd yr effaith ar iechyd meddwl a sicrwydd seicolegol Shae.

- (c) I gyrraedd y band marciau uchaf ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymgeiswyr fynd i'r afael â phob un o'r tri math o gefnogaeth. Nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth ofalgar. Roedd ymatebion ar gyfer technoleg yn cynnwys cysylltu â theulu a ffrindiau sy'n defnyddio rhwydweithio cymdeithasol. Dyfarnwyd marciau i ymgeiswyr am y gefnogaeth a gynigir gan larymau personol a thechnolegau dyfeisiau crog sy'n gallu achub bywydau (*lifeline*).
- Cw.5** (a) Rhoddwyd marciau i ymgeiswyr am ddisgrifiad byr o un gweithgaredd y gall ysgol ei gynnig i blant er mwyn annog creadigrwydd. Roedd enwi gweithgaredd addas heb ddisgrifiad yn cyfyngu ar y marc a ddyfarnwyd.
- (b) Rhoddwyd amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar iaith a lleferydd plentyn. Y mwyaf poblogaidd oedd ffactorau amgylcheddol, salwch ac anabledd a phlant yn byw mewn teulu dwyieithog, lle roedden nhw'n dysgu mwy nag un iaith. Rhoddwyd marciau am ymatebion negyddol a chadarnhaol.
- (c) Cafwyd amrywiaeth o ymatebion da i hunangysyniad Owen, gydag ymgeiswyr yn esbonio y byddai'r gefnogaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar ei hunangysyniad. Rhoddwyd marciau hefyd i ymatebion a awgrymodd y gallai'r ymyrraeth gael effaith negyddol, gall Owen deimlo ei fod yn cael ei labelu a gallai deimlo'n wahanol i'w gyfoedion.
- Cw.6** (a) Mae'r cwestiwn yn gofyn am ymgyrchoedd sy'n benodol i Gymru. Rhoddwyd marciau am yr ymgyrchoedd a nodir yn y fanyleb ac unrhyw ymgyrch bresennol arall yng Nghymru. Roedd yn siomedig nodi bod llawer o ymgeiswyr yn methu ag enwi ymgyrch iechyd bresennol. Ni roddwyd marciau am enwi elusen.
- (b) Gwelwyd sawl ymateb da, gydag ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o rôl a phwrpas hyrwyddo iechyd a llesiant. Roedd ymgeiswyr a gymhwysodd eu dealltwriaeth yn benodol at bobl yn eu llencyndod yn gallu cyrraedd y band marciau uchaf.
- Cw.7** (a) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi disgrifio ystyr y gair gwydnwch. Rhoddwyd un marc am ymatebion byr, megis "ymateb yn dda" ("*bounce back*").
- (b) Roedd y cwestiwn yn gofyn am ddylanwadau cadarnhaol dechrau cyflogaeth a phriodi yn unig. Ni roddwyd marciau am ymateb negyddol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen y cwestiwn yn ofalus.
- (c) Roedd y cwestiwn yn ymddangos yn heriol gyda nifer lleiafrifol o ymgeiswyr yn dangos eu dealltwriaeth yn gywir o'r term cynhwysiant. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ymatebion annelwig am unigolion oedd eisiau cael eu cynnwys. Nid oedd y rhain yn ennill unrhyw gredyd. (Maes testun 1.3 y fanyleb)
- Cw.8** (a) Roedd ymgeiswyr a aeth i'r afael ag effaith anabledd corfforol ar dwf, iechyd a llesiant Yousef yn gallu cyrraedd y band marciau uchaf.
- (b) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr enwi'r gwasanaeth, gyda llawer yn colli marciau drwy enwi'r ymarferwr. Roedd y gwasanaethau poblogaidd a nodwyd yn cynnwys ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

- (c) Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion da a oedd yn dangos dealltwriaeth o ymdeimlad Yousef o sicrwydd. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys poeni am ymweld â manau cyhoeddus a phoeni am y dyfodol.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Dylai ymgeiswyr fod yn fwy gofalus wrth ddarllen y cwestiynau er mwyn atal camddehongli.

Er mwyn cyrraedd y bandiau marcio uwch, dylid cymhwyso ymatebion at y cam bywyd a'r amgylchiadau unigol a roddwyd yn y senario. Dylid annog peidio â chynnig ymatebion generig.

Mewn cwestiynau sy'n gofyn i'r ymgeiswyr ystyried twf, iechyd a llesiant, dylent sicrhau eu bod yn ystyried pob agwedd er mwyn osgoi rhoi ateb rhannol yn unig.

Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Maes testun 1.4 y fanyleb).

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol, cyn-bapurau a chynlluniau marcio, ac adnoddau Arweiniad i'r Arholiad ar gael ar wefan CBAC i ymgeiswyr weld sut mae cwestiynau arholiad yn cael eu geirio a'r ymatebion disgwylidig. Mae adnoddau ar-lein CBAC hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r fanyleb hon.

Am arweiniad pellach, mae deunyddiau DPP ar gael ar y wefan ddiogel.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk